Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Clinig Triniaethau Cosmetig Sugarbox, Rhisga

Dyddiad yr arolygiad: 29 Medi 2025
Dyddiad cyhoeddi: 30 Rhagfyr 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn:0300 062 8163
E-bost:agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80633-796-5

© Hawlfraint y Goron 2025

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ....... 5

2. Crynodeb o'r arolygiad ....... 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ....... 8

- Ansawdd Profiad y Claf ....... 8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ....... 11
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ....... 16

4. Y camau nesaf ....... 18

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ....... 19

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith ....... 20

Atodiad C - Cynllun gwella ....... 21

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd yng Nghlinig Triniaethau Cosmetig Sugarbox ar 29 Medi 2025.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan ddau arolygydd gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o bum holiadur. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod Sugarbox yn ymrwymedig i roi dewis i gleifion o ran triniaethau ac yn darparu gwasanaethau mewn amgylchedd taclus a chroesawgar. Roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur cleifion AGIC yn gadarnhaol, gyda'r holl ymatebwyr yn nodi eu bod yn teimlo bod y clinig yn ‘dda iawn’ neu'n ‘dda’ a bod y safle yn ‘lân iawn’. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch. Fodd bynnag, byddai rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol am gynllun y clinig a darparu gwybodaeth allweddol mewn amrywiaeth ehangach o fformatau yn atgyfnerthu dull cefnogol y clinig ymhellach. Roedd prosesau cydsynio ac asesu cadarn ar waith i sicrhau gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn, a dangosodd y rheolwr cofrestredig ddiddordeb mewn hybu iechyd yn ehangach.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Darparu dogfennau allweddol mewn amrywiaeth ehangach o fformatau, er enghraifft fersiynau hawdd eu deall, print bras a Chymraeg.
- Cadarnhau unrhyw anghenion symudedd penodol a all fod gan bobl yn ystod eu cyswllt cyntaf er mwyn helpu i gynllunio triniaeth briodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd mesurau ar waith i ddiogelu preifatrwydd cleifion yn ystod ymgyngoriadau ac wrth gael triniaeth
- Roedd yr ymarferwyr yn hyderus i wrthod rhoi triniaethau nad oeddent yn teimlo eu bod yn addas i anghenion cleifion
- Roedd y gwasanaeth yn gwahodd cleifion i roi adborth, boed hynny'n gadarnhaol neu'n negyddol, ac yn ymateb yn adeiladol.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Roedd y trefniadau o ran diogelwch a diogelwch nwy yn briodol, ond roedd angen cynnal profion diogelwch trydanol pellach a chynnal a chadw'r cyfarpar triniaeth laser. Roedd dogfennau allweddol, fel tystysgrif gofrestru, protocolau meddygol ac asesiadau risg, ar waith ond roedd angen eu diweddaru. Gwnaethom nodi bod angen gwella prosesau cadw cofnodion a gwnaethom drafod y cyfle y gallai system cadw cofnodion newydd ei gynnig i wella'r ffordd y caiff gwybodaeth ei rheoli.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal a chadw'r cyfarpar trin, gan gynnwys y peiriant laser, y gwely trin a'r pecyn cymorth cyntaf, yn unol â'r argymhellion
- Adolygu'r asesiadau risg mewn perthynas â thân, iechyd a diogelwch a COSHH, a'u rhoi ar waith yn llawn
- Diweddaru'r templed ar gyfer cofrestr triniaethau cleifion a lenwir â llaw.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd arwyddion clir ar gyfer y cyfarpar laser ac roedd yn cael ei gadw'n ddiogel
- Roedd yr holl gyfarpar diogelu personol priodol ar gael i'r staff a'r cleifion
- Roedd cynllun archwilio rheolaidd ar waith ac roedd gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu mewn cyfarfodydd tîm.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig yn darparu arweinyddiaeth weladwy ac yn hyrwyddo ymreolaeth y staff yn eu rolau. Gallai'r staff wneud penderfyniadau mewn perthynas â'u gwaith drwy arfarniadau a nodau personol. Roedd polisi recriwtio ar waith ond roedd angen ei roi ar waith yn fwy cadarn.

Roedd tystysgrif yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus yn cael ei harddangos, gan roi sicrwydd i'r cleifion.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi system ar waith i sicrhau y caiff polisïau eu diweddaru ac y caiff yr hyfforddiant diweddaraf ei gwblhau yn rheolaidd
- Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion AGIC mewn perthynas â gweithdrefnau cofrestru a chwyno
- Rhoi polisi recriwtio ar waith yn gadarn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y rheolwr cofrestredig wrth law i gefnogi aelodau'r tîm
- Roedd y gwasanaeth yn ymateb i ymholiadau gan gyflogeion mewn modd adeiladol
- Roedd systemau arfarnu a chyfnod prawf ar waith, gan gynnig cyfleoedd datblygu unigol.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

**Adborth gan gleifion**
Rhoddodd yr ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC adborth cadarnhaol am eu profiadau yn y clinig. Ar y cyfan, nododd yr holl ymatebwyr fod y gwasanaeth naill ai'n ‘dda iawn’ neu'n ‘dda’. Nododd yr ymatebwyr hefyd eu bod yn cael gwybodaeth a chyngor addas, ac roedd pob un ohonynt o'r farn bod y safle yn ‘lân iawn’.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*“…roedd yn amlwg bod ymddiriedaeth a gonestrwydd yn bwysicach nag unrhyw elw ariannol.”*

**Diogelu a gwella iechyd**
Gwelsom fod gwybodaeth am risgiau a manteision triniaethau yn cael ei chyflwyno'n glir ar wefan y clinig, lle roedd atebion i gwestiynau cyffredin hefyd. Disgrifiwyd trafodaethau am brosesau trin, costau, risgiau, manteision ac addasrwydd ar gyfer y claf, a gynhaliwyd yn ystod ymholiadau cychwynnol ac ar ddechrau pob ymgynghoriad a sesiwn drin. Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno eu bod wedi cael y wybodaeth hon am eu triniaethau.

Dywedwyd wrthym fod y clinig wedi dosbarthu taflenni gwybodaeth am roi'r gorau i smygu yn y gorffennol, lle y bo'n gymwys, a bod y rheolwr cofrestredig yn bwriadu archebu mwy o daflenni er mwyn parhau â'r gweithgarwch hybu iechyd.

**Urddas a pharch**
Gwelsom mai un ystafell drin ar gyfer triniaethau laser oedd yng Nghlinig Triniaethau Cosmetig Sugarbox, wedi'i lleoli ar y llawr cyntaf. Roedd yr ystafell drin yn ymddangos yn lân, yn daclus ac yn drefnus, ac roedd clo ar y drws a bleinds ar y ffenestr er mwyn galluogi cleifion i newid yn breifat. Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno'n gryf fod mesurau wedi'u cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd.

Dywedwyd wrthym y gellid rhoi tywelion neu rolyn papur tafladwy i gleifion pe bai angen, i ddiogelu eu hurddas. Gallai cleifion ddod â'u hebryngwyr eu hunain gyda nhw pe baent yn dewis gwneud hynny.

Gwelsom fod sgyrsiau ag aelodau o'r cyhoedd ar y safle a thros y ffôn yn barchus, a nododd un ymatebydd yn holiadur AGIC y canlynol:

> *"Mae'r tîm bob amser yn gyfeillgar iawn ac yn barod i helpu."*

**Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion**
Gwelsom fod polisïau priodol ar waith i helpu cleifion i roi cydsyniad ar sail gwybodaeth ar gyfer triniaeth.

Dywedwyd wrthym fod trafodaethau cadarn yn sicrhau bod cleifion yn deall eu triniaeth. Roedd y trafodaethau hyn hefyd yn galluogi gweithredwr y peiriant laser i ystyried a oedd gan y claf alluedd meddyliol i benderfynu cael y driniaeth ac a oedd yn rhoi cydsyniad o'i ewyllys ei hun. Dywedwyd wrthym fod gweithredwyr y peiriant laser yn hyderus i wrthod rhoi triniaeth os nad oeddent yn teimlo bod y driniaeth yn addas i anghenion y claf. Nododd un claf a ymatebodd i holiadur AGIC nad oedd hyn wedi'i gyfyngu i arferion yn ymwneud â darparu gwybodaeth a chyngor ynglŷn â thriniaethau laser, gan nodi:

> *"Yn ystod ymgynghoriad ar gyfer Botox, cefais gyngor i beidio â chael Botox mewn ardaloedd ychwanegol gan na fyddai'n cyflawni'r hyn roeddwn yn anelu ato. Roeddwn yn hapus iawn..."*

**Cyfathrebu'n effeithiol**
Gwnaethom edrych ar y canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben a ddarparwyd gan y rheolwr cofrestredig. Roedd y ddau yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Gwelsom mai dim ond yn Saesneg roedd gwybodaeth y clinig ar gael. Dywedwyd wrthym y gofynnwyd i gleifion ddod â chyswllt personol sy'n siarad Saesneg gyda nhw pe bai cyfathrebu yn Saesneg yn anodd.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth am y clinig a thriniaethau ar gael mewn amrywiaeth ehangach o fformatau, fel fersiynau hawdd eu deall a Chymraeg.**

**Cynllunio a darparu gofal**
Gwelsom fod modd trefnu apwyntiadau ar wefan y clinig, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.

Cawsom sicrwydd bod triniaethau yn cael eu cynnig ar ôl cwblhau asesiad cynhwysfawr a bod cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Gwelsom y gofynnwyd i gleifion ddarparu hanes meddygol llawn drwy'r system gydsynio ar-lein. Dywedwyd wrthym fod hanes

meddygol a rhagofalon yn cael eu cadarnhau hefyd yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol ac ar ddechrau sesiynau trin.

**Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**
Gwnaethom edrych ar bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Sugarbox a chadarnhau ei fod yn cynnwys nodweddion gwarchodedig diffiniedig, rolau a chyfrifoldebau yn y clinig mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a'r broses ar gyfer ymchwilio i adroddiadau am wahaniaethu.

Dywedwyd wrthym fod cleifion traws yn cael triniaethau yn y clinig, a bod y staff yn ymdrin yn sensitif ag enwau, rhagenwau a dulliau cyfathrebu cyffredinol a ffefrir. Gwelsom fod enwau a ffefrir yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion.

Gwelsom fod drws ffrynt y clinig yn addas i gadeiriau gwthio a chadeiriau olwyn, ond bod stepiau a grisiau serth yn yr adeilad yn atal cleifion ag anghenion symudedd rhag cael triniaethau laser.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gadarnhau unrhyw bryderon am symudedd a all fod gan gleifion fel rhan o'r broses o drefnu apwyntiad a rhoi gwybod i gleifion sy'n nodi problemau symudedd am gynllun yr adeilad.**

**Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**
Gwelsom fod y broses o gasglu adborth a chwynion gan gleifion yn cael ei hyrwyddo yn y canllaw i gleifion a bod gwybodaeth ar gael yn ardal y dderbynfa. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth yn ymchwilio i unrhyw adolygiad â llai na phum seren. Gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn ymateb yn adeiladol i gwynion ffurfiol.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

**Yr Amgylchedd**

Gwelsom fod camerâu diogelwch ar waith. Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth gwasanaethu ar gyfer y cyfarpar nwy a thrydan. Roedd y dystysgrif diogelwch nwy yn briodol. Fodd bynnag, roedd yr adroddiad ar y prawf cylched trydanol yn dangos efallai nad oedd y cyflenwad trydan i'r peiriant laser wedi cael ei brofi.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd i AGIC bod y cyflenwad trydanol i'r peiriant laser wedi cael ei brofi a chadarnhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.**

**Rheoli risg ac iechyd a diogelwch**

Gwnaethom edrych ar drefniadau diogelwch tân y clinig a gwelsom fod y cyfarpar diffodd tân wedi cael ei wasanaethu yn ddiweddar. Gwelsom fod asesiad risg tân wedi cael ei gwblhau a'i adolygu yn fuan ar ôl yr arolygiad. Cafodd y man ymgynnull yn achos tân ei newid hefyd i leoliad mwy addas a gosodwyd mwy o arwyddion ar gyfer dianc yn dilyn yr arolygiad. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, roedd gennym bryderon nad oedd y llwybr dianc o'r llawr cyntaf yn ddiogel ac yn hygyrch ac y gallai beri risg ddiangen o niwed corfforol.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff asesiad risg tân ei gynnal gan berson cymwys i roi sicrwydd bod y llwybrau dianc rhag tân ar y safle yn dderbyniol.**

Gwelsom dystiolaeth o ymarferion tân diweddar a phrofion diweddar o'r larymau tân, a dywedwyd wrthym fod profion wythnosol o'r larymau wedi'u cynllunio. Gwelsom nad oedd arwyddion dim smygu ar y safle, a threfnodd y rheolwr cofrestredig i'r arwyddion hyn gael eu harchebu yn ystod yr arolygiad.

Gwnaethom edrych ar y gofrestr risgiau gyffredinol a'r cofnodlyfr asesiadau risg a oedd ar waith. Roedd angen adolygu'r rhain er mwyn sicrhau bod y risgiau a nodwyd a'r cynlluniau lliniaru yn rhoi ystyriaeth gynhwysfawr i ddiogelu cleifion a'u heiddo, a hygyrchedd a diogelwch amgylcheddol. Gwelsom fod asesiadau ar waith ar gyfer rhai sylweddau peryglus i iechyd ond y dylid ymestyn y rhain i gynnwys pob cemegyn peryglus ar y safle. Mae angen rhoi cynlluniau gweithredu ar waith yn gyson hefyd er mwyn sicrhau bod cemegion yn cael eu cadw mewn cypyrddau dan glo i atal aelodau o'r cyhoedd rhag cael gafael arnynt.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff asesiadau a chynlluniau gweithredu mewn perthynas ag iechyd a diogelwch a Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) eu hadolygu a'u rhoi ar waith fel y bo'n briodol.**

Gwnaethom edrych ar y pecyn cymorth cyntaf a gwelsom fod y dyddiad defnyddio ar y gorchuddion a'r pecynnau oeri wedi mynd heibio. Gwnaethom godi'r mater hwn gyda'r rheolwr cofrestredig, a aeth ati ar unwaith i drefnu bod eitemau newydd yn cael eu harchebu yn eu lle. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn Atodiad A.

Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig a dau aelod arall o'r staff yn nyrsys cofrestredig a'u bod yn hyderus ynghylch y camau i'w cymryd mewn argyfwng meddygol. Dywedodd y rheolwr cofrestredig ei fod wedi rhaeadru'r gweithdrefnau i'w dilyn mewn argyfwng i weddill y tîm. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd yr holl eitemau cymorth cyntaf brys yn cael eu cadw gyda'i gilydd, a allai beri oedi i'r staff wrth iddynt gasglu'r eitemau angenrheidiol mewn argyfwng meddygol.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr eitemau cymorth cyntaf brys eu cadw mewn un lle ac y rhoddir proses ar waith i sicrhau bod eitemau'n cael eu hailarchebu pan fydd y dyddiad defnyddio a nodir arnynt yn nesáu.**

Gwelsom fod asesiad risg laser o bell wedi cael ei gynnal yn ddiweddar gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau penodedig. Roedd gwaith diweddar i wasanaethu'r peiriant laser wedi nodi mân ddifrod i driger llaw y peiriant laser, ac argymhellwyd y dylai hwn gael ei atgyweirio. Fodd bynnag, cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig yn ystod yr arolygiad nad oedd y gwaith atgyweirio hwn wedi cael ei gwblhau eto.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y triger llaw ei atgyweirio neu y caiff un newydd ei archebu yn ei le, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i weithio'n ddiogel.**

Dywedwyd wrthym fod dau beiriant laser wedi cael eu cofrestru yn y clinig yn flaenorol, ond bod un o'r rhain wedi torri ac wedi cael ei symud oddi ar y safle a'i dynnu oddi ar y rhestr o asedau busnes.

**Mae angen i'r rheolwr cofrestredig gwblhau ffurflen datgofrestru ffurfiol ar gyfer y peiriant laser a waredwyd, a'i chyflwyno i AGIC.**

Gwelsom fod protocolau meddygol safonol yn cael eu harddangos ar wal yr ystafell drin er mwyn cyfeirio atynt yn gyflym, a dywedwyd wrthym mai'r rhain oedd y fersiynau mwyaf diweddar sydd ar gael gan y gwneuthurwr. Fodd bynnag, gwnaethom nodi mai 2014 oedd y dyddiad arnynt.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gysylltu â gwneuthurwr y peiriant laser yn rheolaidd i gael unrhyw fersiynau mwy diweddar o'r protocolau meddygol.**

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**

Gwelsom fod amgylchedd mewnol y clinig yn daclus ac yn lân iawn, gydag amserlenni glanhau rheolaidd yn cael eu cwblhau ac roedd diweddariad diweddar i'r templed yn golygu bod modd cadarnhau'n gyflym bod agweddau hanfodol wedi'u cyflawni. Nododd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y clinig yn ‘lân iawn’. Fodd bynnag, gwnaethom nodi difrod i'r gwely trin, a fyddai'n ei atal rhag cael ei lanhau'n effeithiol. Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig yn ystyried prynu gwely newydd â gorchuddion plastig er mwyn atal a rheoli heintiau yn well.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y gwely trin ei atgyweirio neu y caiff un newydd ei archebu yn ei le, fel y bo'n briodol.**

Gwelsom nad oedd y staff wedi cael hyfforddiant ffurfiol ar atal a rheoli heintiau yn ddiweddar. Heb yr hyfforddiant hwn, efallai na fydd y staff yn rhoi mesurau atal a rheoli heintiau ar waith yn llawn, gan effeithio ar ddiogelwch cleifion. Roedd holiadur AGIC yn gofyn a oedd mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn, a dywedodd un allan o bump o'r ymatebwyr mai dim ond weithiau neu yn rhannol roeddent yn cael eu dilyn.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant gloywi ar atal a rheoli heintiau hyd at lefel sy'n gyson â'u rôl.**

**Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed**

Roedd y peiriant laser ar y safle wedi'i gofrestru i drin cleifion 16 oed a throsodd. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y cydymffurfiwyd â hyn, a gwelsom fod y gweithdrefnau cydsynio yn briodol ar gyfer yr ystod oedran.

Gwnaethom edrych ar bolisi diogelu Sugarbox. Er bod hwn yn cynnwys manylion cyswllt yr awdurdod lleol perthnasol, gwelsom nad oedd yn cynnwys gweithdrefnau clir o ran sut y byddai'r clinig yn ymateb i bryderon. Gwnaethom drafod arddangos siart lif yn seiliedig ar Weithdrefnau Diogelu Cymru er mwyn helpu'r staff i weithredu pe baent yn nodi pryderon am ddiogelu.

Gwelsom fod un o weithredwyr y peiriant laser wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion, a dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig wrthi'n cael hyfforddiant hyd at y lefel briodol. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd y staff eraill a oedd yn gweithio yn y clinig wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r staff gwblhau hyfforddiant priodol ar ddiogelu a darparu tystiolaeth o'r holl hyfforddiant a gwblhawyd.**

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i'r cleifion a'r gweithredwr laser. Roedd asesiad risg laser diweddar wedi nodi ôl traul, ond bod y sbectolau amddiffynnol yn ddiogel i'w defnyddio o hyd. Roedd sbectolau amddiffynnol sbâr addas ar gael pe bai pâr yn methu, neu pe bai angen pâr ychwanegol ar gyfer hebryngwr.

Roedd arwyddion y tu allan i'r ystafell drin i ddangos bod peiriant laser yn yr ystafell ac roedd clo ar y drws ac arwydd rhybudd y gellid ei oleuo i atal pobl heb awdurdod rhag mynd i mewn pan oedd y peiriant yn cael ei ddefnyddio. Roedd trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod y peiriant laser yn ddiogel pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio.

Gwelsom dystiolaeth bod hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant penodol ar y peiriant laser wedi cael eu cwblhau yn y gorffennol. Gwnaethom drafod hyn gyda'r rheolwr cofrestredig, a gytunodd y byddai hyfforddiant gloywi yn cael ei gwblhau.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod holl weithredwyr y peiriant laser yn cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth diweddaraf a'r hyfforddiant penodol diweddaraf ar y peiriant laser.**

### Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwnaethom edrych ar y polisi ymchwil ac archwilio a oedd yn nodi amrywiaeth o archwiliadau rheolaidd y dylai'r clinig eu cynnal. Dywedwyd wrthym fod yr archwiliadau hyn yn cael eu cwblhau a gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd staff lle rhannwyd gwersi a ddysgwyd.

### Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu

Gwelsom fod y clinig yn cadw cofnodion papur a chofnodion electronig a bod trefniadau addas ar waith i sicrhau na allai pobl heb awdurdod gael gafael arnynt. Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod llwyfan cofnodion electronig newydd yn cael ei ystyried, a gwnaethom drafod hyn fel cyfle i adolygu cofnodion a archifwyd ac i ystyried cadw neu ddinistrio nodiadau hanesyddol yn ddiogel yn unol â'r amserlenni cadw.

### Rheoli cofnodion

- Gwnaethom edrych ar bum cofnod o'r gofrestr triniaethau cleifion a lenwir â llaw a sampl o nodiadau electronig ac wedi'u hysgrifennu â llaw. Gwnaethom nodi'r canlynol: Roedd y defnydd o dalfyriadau yn creu amwysedd mewn perthynas ag ystyr nodiadau
- Nid oedd gwallau yn cael eu diweddaru'n glir, gan leihau eglurder
- Roedd y cofnodion yn cynnwys yr amledd laser a ddefnyddiwyd ar gyfer triniaethau, ond nid oeddent yn cynnwys manylion y peiriant laser

- Roedd y cofnodion electronig yn cynnwys lle i ychwanegu sylwadau am effeithiau triniaethau ac unrhyw adweithiau, ond nid oedd lle i wneud hynny yn y cofnodion a ysgrifennwyd â llaw.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddaru'r templed ar gyfer y gofrestr triniaethau cleifion er mwyn sicrhau bod manylion y peiriant laser yn cael eu nodi a bod lle i wneud sylwadau byr. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob cofnod a ysgrifennir â llaw yn eglur ac wedi'i gwblhau'n llawn.**

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

**Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**
Mae Clinig Triniaethau Cosmetig Sugarbox yn eiddo i'r rheolwr cofrestredig ac yn cael ei redeg ganddo, ac mae pob un o'r wyth aelod o staff, sydd naill ai'n gyflogedig neu'n hunangyflogedig, yn adrodd iddo.

Gwelsom fod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a thystysgrif cofrestru AGIC yn cael eu harddangos yn y dderbynfa, a bod y ddwy yn gyfredol. Gwnaethom drafod arddangos yr amodau cofrestru hefyd, a threfnodd y rheolwr cofrestredig i hyn gael ei wneud yn ystod yr arolygiad.

Gwelwyd aelodau o'r tîm yn gweithio ag ymreolaeth, ac roeddent yn groesawgar ac yn barod i helpu'r tîm arolygu. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd unrhyw system ar waith i sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant perthnasol yn rheolaidd. Er bod amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar gael i gefnogi'r staff, nid oedd unrhyw system ar waith i ysgogi adolygiadau rheolaidd o'r rhain er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol. Dywedwyd wrthym yr arferai fod rheolwr clinig a fyddai'n goruchwylio hyfforddiant a diweddariadau amserol, a bod y clinig yn gobeithio penodi rheolwr clinig arall i helpu'r rheolwr cofrestredig i lywodraethu'r gwasanaeth.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i sicrhau bod diweddariadau rheolaidd i bolisïau a hyfforddiant ar gael i staff y clinig.**

**Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**
Gwnaethom edrych ar bolisi chwythu'r chwiban a pholisi cwynion Sugarbox a gwelsom fod y ddau yn nodi proses resymegol ac amserlenni rhesymol ar gyfer ymchwilio i bryderon ac ymateb iddynt. Fodd bynnag, mae angen i'r weithdrefn gwyno gynnwys manylion cyswllt llawn AGIC er mwyn i gwynion gael eu cyfeirio ati os oes angen.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddaru'r polisi cwynion i gynnwys manylion cyswllt llawn AGIC.**

**Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**
Gwelsom fod polisi recriwtio ar waith ond bod angen mwy o gysondeb wrth ei gymhwyso. Gwnaethom nodi hefyd nad oedd gwiriadau i gadarnhau bod aelodau o staff o gymeriad da yn cael eu cwblhau yn dilyn y gwiriadau cyn cyflogi cychwynnol.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwiriadau cyn cyflogi priodol yn cael eu cynnal ar bob aelod newydd o staff yn unol â'r polisi recriwtio.**

**Cynllunio’r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**
Gwelsom fod rhestr wirio sefydlu a phroses cyfnod prawf ar gael er mwyn helpu aelodau newydd o staff i ddatblygu. Gwelsom hefyd dystiolaeth o arfarniadau staff a nodau datblygu wedi'u teilwra at yr unigolyn. Gwelsom fod presenoldeb y rheolwr cofrestredig a chyfarfodydd staff rheolaidd yn helpu'r tîm i gyfathrebu a datblygu.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae’n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi’n glir sut yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a’r cyhoedd yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw’r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o’r sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| **Pryderon uniongyrchol a nodwyd** | **Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion** | **Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder** | **Sut cafodd y pryder ei ddatrys** |
| --- | --- | --- | --- |
| Roedd y dyddiad defnyddio ar rai o'r eitemau cymorth cyntaf wedi mynd heibio. | Gallai hyn beri risg i ymwelwyr â'r safle pe bai damwain. | Codwyd y mater hwn ar unwaith â'r rheolwr cofrestredig. | Cafodd eitemau newydd eu harchebu yn ystod yr arolygiad. |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Clinig Triniaethau Cosmetig Sugarbox

## Dyddiad yr arolygiad: 29 Medi 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| | Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | | |

# Atodiad C - Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Clinig Triniaethau Cosmetig Sugarbox

## Dyddiad yr arolygiad: 29 Medi 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Dim ond yn Saesneg, mewn fformat hir, y mae gwybodaeth am y clinig a thriniaethau ar gael. | Dylid sicrhau bod gwybodaeth am y clinig a thriniaethau ar gael mewn amrywiaeth ehangach o fformatau, fel fersiynau hawdd eu deall a Chymraeg. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 18(1)(b) | | | |
| 2. | Nid yw'r safle yn gwbl hygyrch i gleifion â phroblemau symudedd. | Dylid sicrhau bod gwybodaeth am y clinig yn cynnwys manylion am gynllun y safle. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 18(1)(b) | | | |
| 3. | Nid oedd yn glir a oedd y cyflenwad trydanol i'r peiriant laser wedi cael | Dylid cadarnhau bod y cyflenwad trydanol i'r peiriant laser wedi'i | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 26(2)(b) | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ei brofi a'i dybio'n ddiogel. | brofi a'i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. | | | | |
| **4.** | Mae angen diweddaru'r asesiad risg tân a'r cynllun gweithredu er mwyn sicrhau eu bod yn addas ac yn gynhwysfawr. | Dylid sicrhau bod yr asesiad risg tân yn cael ei gynnal gan berson cymwys i roi sicrwydd bod y llwybrau dianc rhag tân ar y safle yn dderbyniol. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 26(4)(f) | | | |
| **5.** | Mae angen diweddaru'r asesiadau risg mewn perthynas ag iechyd a diogelwch a COSHH a'u rhoi ar waith yn gyson. | Dylid sicrhau bod yr asesiadau risg a'r cynlluniau gweithredu mewn perthynas ag iechyd a diogelwch a COSHH yn cael eu hadolygu a'u rhoi ar waith fel y bo'n briodol. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 9(1)(k) | | | |
| **6.** | Nid yw'r eitemau cymorth cyntaf yn cael eu cadw mewn lleoliad canolog. | Dylid sicrhau bod yr eitemau cymorth cyntaf brys yn cael eu cadw mewn lleoliad canolog fel bod modd cael gafael arnynt yn hawdd mewn argyfwng | Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru, Safon 3 / Rheoliadau 9, 19, 26 | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **7.** | Nid oes proses ar waith i sicrhau bod eitemau cymorth cyntaf yn cael eu hailarchebu mewn modd amserol pan fydd y dyddiad defnyddio a nodir arnynt yn nesáu. | Dylid rhoi proses ar waith i sicrhau bod eitemau y mae'r dyddiad defnyddio a nodir arnynt yn nesáu yn cael eu hailarchebu. | Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru, Safon 3 / Rheoliadau 9, 19, 26 | | | |
| **8.** | Nid yw triger llaw y peiriant laser wedi cael ei atgyweirio fel yr argymhellwyd. | Dylid sicrhau bod y triger llaw yn cael ei atgyweirio neu fod un newydd yn cael ei archebu yn ei le, yn unol â'r argymhelliad. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru), Atodlen 3, Rhan II 3(c) | | | |
| **9.** | Mae peiriant laser wedi'i gofrestru o hyd i'r clinig er nad yw'n un o asedau'r clinig mwyach. | Dylid cyflwyno ffurflen datgofrestru ffurfiol ar gyfer y peiriant laser dan sylw i AGIC. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru), Atodlen 3, Rhan II 3 | | | |
| **10.** | Roedd modd cyfeirio'n hawdd at y protocolau meddygol safonol ar gyfer triniaethau laser, ond 2014 oedd y dyddiad arnynt. | Rhaid cysylltu â gwneuthurwr y peiriant laser yn rheolaidd i holi am unrhyw fersiynau mwy diweddar o'r protocolau meddygol. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 45 (1) | | | |
| **11.** | Mae difrod i'r gwely trin yn ei atal rhag cael ei lanhau'n effeithiol. | Dylid atgyweirio'r gwely trin neu archebu un newydd yn ei le. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | (Cymru) 15(7)(a) / 8(c)(ii) | | | |
| **12.** | Nid yw staff y clinig wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau yn ddiweddar. | Dylid sicrhau bod hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau yn cael ei gwblhau hyd at y lefel berthnasol:<br>Staff Clinigol - Lefel 2<br>Staff Gweinyddol - Lefel 1 | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 15 (7) | | | |
| **13.** | Nid yw pob aelod o staff sy'n gweithio yn y clinig wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu. | Rhaid i'r staff gwblhau hyfforddiant priodol ar ddiogelu a darparu tystiolaeth o'r holl hyfforddiant a gwblhawyd:<br>Arweinydd Diogelu - Lefel 3 Staff Clinigol - Lefel 2<br>Staff Gweinyddol - Lefel 1 | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 16(1) | | | |
| **14.** | Nid yw gweithredwyr y peiriant laser wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth na hyfforddiant penodol ar | Rhaid i weithredwyr y peiriant laser gwblhau hyfforddiant gloywi Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant gloywi sy'n | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 45 | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | gyfer y peiriant laser yn ddiweddar. | benodol i'r peiriant laser. | | | | |
| **15.** | Nid yw safon y cofnodion yn y gofrestr triniaethau cleifion yn ddigonol. | Dylid diweddaru'r templed ar gyfer y gofrestr triniaethau cleifion i gynnwys manylion y peiriant laser a lle i wneud sylwadau byr. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob cofnod a ysgrifennir â llaw yn eglur ac wedi'i gwblhau'n llawn. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 45(2) | | | |
| **16.** | Nid oes system ar waith i helpu i gynnal diweddariadau i bolisïau a hyfforddiant staff. | Dylid rhoi system ar waith i sicrhau bod diweddariadau rheolaidd i bolisïau a hyfforddiant ar gael i staff y clinig. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 9 | | | |
| **17.** | Nid yw'r weithdrefn gwyno yn cynnwys manylion cyswllt llawn AGIC. | Dylid diweddaru'r weithdrefn gwyno i gynnwys manylion cyswllt llawn AGIC. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 24(4)(a) | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **18.** | Mae polisi recriwtio ar waith ond mae angen mwy o gysondeb wrth ei gymhwyso. | Dylid sicrhau bod gwiriadau cyn cyflogi yn cael eu cynnal yn unol â'r polisi. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru), Rhan VI, Atodlen 2 (3)(a) | | | |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**